SCHEDULE 2 Regulation 2

MEMORANDUM AND ARTICLES OF ASSOCIATION OF RTM COMPANIES

# PART 1

## MEMORANDUM OF ASSOCIATION

MEMORANDWM CYMDEITHASU : MEMORANDUM OF ASSOCIATION

**DEDDFAU CWMNÏAU 1985 A 1989**

**CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT SYDD HEB GYFALAF CYFRANNAU**

**MEMORANDWM CYMDEITHASU**

*ENW*

**[CWMNI RTM CYFYNGEDIG] [RTM COMPANY LIMITED]**

**1**. Enw'r cwmni yw [*enw*] [Cwmni RTM Cyfyngedig] [RTM Company Limited] (y "Cwmni").

**2**. Lleolir swyddfa gofrestredig y Cwmni yng Nghymru(**a**).

**3**. Yr amcanion dros sefydlu'r Cwmni yw caffael ac arfer yn unol â Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ("Deddf 2002") yr hawl i reoli'r fangre a elwir [*enw a chyfeiriad*] ("y Fangre"). Ni chaiff yr amcanion hyn eu dehongli'n gyfyng ond rhoddir y dehongliad ehangaf iddynt.

**4**. Er mwyn hyrwyddo'r amcanion, ond nid fel arall, bydd gan y Cwmni y pŵer i wneud popeth a gaiff ei awdurdodi neu sy'n ofynnol ei wneud gan gwmni RTM drwy ac o dan Ddeddf 2002, ac yn benodol (ond heb randdirymu grym cyffredinol yr uchod) -

(a) paratoi, gwneud, bwrw ymlaen â hawliad i gaffael yr hawl i reoli'r Fangre neu ei dynnu'n ôl;

(b) arfer swyddogaethau rheoli o dan lesoedd o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Fangre yn unol ag adrannau 96 a 97 o Ddeddf 2002;

(c) arfer swyddogaethau mewn perthynas â rhoi cymeradwyaethau o dan lesoedd hir o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Fangre yn unol ag adrannau 98 a 99 o Ddeddf 2002;

(ch) yn unol ag adrannau 100 a 101 o Ddeddf 2002, monitro, cadw golwg, adrodd i'r landlord, a sicrhau neu orfodi unrhyw berson i gyflawni telerau unrhyw gyfamod, ymgymeriad, dyletswydd neu ymrwymiad sy'n gysylltiedig mewn unrhyw fodd â'r Fangre neu'n effeithio arni neu unrhyw rai o'i meddianwyr;

(d) negodi a gwneud ceisiadau i amrywio lesoedd yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Landlord a Thenant 1987 ("Deddf 1987");

(dd) gwneud y pethau eraill hynny a chyflawni'r swyddogaethau eraill hynny mewn perthynas â'r Fangre neu unrhyw lesoedd o'r cyfan neu unrhyw rhan o'r Fangre y gellir cytuno arnynt o dro i dro gyda'r landlord neu'r landlordiaid neu unrhyw bartïon eraill i'r les, yn ôl y digwydd;

(e) darparu a chynnal gwasanaethau ac amwynderau o bob disgrifiad mewn perthynas â'r Fangre; cynnal, trwsio, adnewyddu, ailaddurno, ailbeintio a glanhau'r Fangre; a thrin y tir, cynnal y tir, tirlunio a phlannu unrhyw dir, gerddi ac eiddo sy'n rhan o'r Fangre;

(f) ymrwymo mewn contractau ag adeiladwyr, addurnwyr, glanhawyr, tenantiaid, contractwyr, garddwyr, neu unrhyw berson arall; ymgynghori a chadw gwasanaeth unrhyw gynghorwyr proffesiynol a chyflogi unrhyw staff ac asiantwyr rheoli neu asiantwyr eraill; a thalu, gwobrwyo neu roi cydnabyddiaeth mewn unrhyw fodd i unrhyw berson sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r Cwmni;

(ff) gwneud unrhyw gytundebau priodol neu ganlyniadol neu drefniadau er mwyn i'r hawl i reoli'r Fangre beidio â bod yn arferadwy gan y Cwmni;

(a) Gweler y Ddeddf Gwmnïau 1985 adrannau 2(1) a (2) a 710B

(g) dyroddi a derbyn unrhyw hysbysiad, gwrth-hysbysiad, caniatâd neu gyfathrebiad arall a gohebu ynghylch y Fangre neu'r hyn sy'n effeithio arni mewn unrhyw fodd, rheoli'r Fangre, meddianwyr y Fangre, y Cwmni, unrhyw un o'i weithgareddau, neu unrhyw un o'i aelodau;

(ng) cychwyn, bwrw ymlaen, amddiffyn neu gymryd rhan mewn unrhyw gais i unrhyw lys neu dribiwnlys o unrhyw ddisgrifiad neu mewn unrhyw achos arall ger eu bron;

(h) yswirio'r Fangre neu unrhyw eiddo arall y Cwmni neu eiddo y mae ganddo fuddiant ynddo rhag difrod neu ddistryw a'r risgiau eraill hynny y gellir eu hystyried sy'n angenrheidiol, yn briodol neu'n ddymunol ac i yswirio'r Cwmni a'i gyfarwyddwyr, swyddogion neu archwilwyr rhag atebolrwydd cyhoeddus ac unrhyw risgiau eraill y gall ystyried ei bod yn ddoeth neu'n ddymunol i yswirio rhagddynt;

(i) casglu neu dderbyn arian oddi wrth unrhyw berson oherwydd taliadau gwasanaeth, taliadau gweinyddol a thaliadau eraill mewn perthynas â'r Fangre a phan fydd hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith, dal, buddsoddi a thrafod yr arian yn unol â darpariaethau Ddeddf 1987 ac unrhyw reoliadau neu orchymyn a wneir o dan y Ddeddf honno o dro i dro;

(j) sefydlu, gwneud a gweithredu unrhyw ymddiriedolaethau y gellir yn gyfreithiol, neu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, eu sefydlu, eu gwneud neu eu gweithredu gan y Cwmni;

(l) sefydlu a chynnal cronfeydd cyfalaf wrth gefn, cronfeydd rheoli ac unrhyw ffurf ar gronfa ad-dalu er mwyn talu, neu gyfrannu tuag at, holl ffioedd, costau, a threuliau eraill a dynnwyd wrth weithredu amcanion y Cwmni;

(ll) buddsoddi unrhyw arian sydd gan y Cwmni yn y Deyrnas Unedig drwy ei adneuo gyda llog gydag unrhyw sefydliad ariannol lle gellir dal cronfa ymddiriedolaeth o gyfraniadau taliadau gwasanaeth yn unol â Deddf 1987; neu ei fuddsoddi mewn modd arall (gan gynnwys prynu gwarannau a buddsoddiadau eraill) y bydd y Cwmni yn ei awdurdodi o dro i dro mewn cyfarfod cyffredinol; a dal, gwerthu neu waredu fel arall unrhyw fuddsoddiadau o'r fath;

(m) yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau neu amodau a roddir gan y Cwmni mewn cyfarfod cyffredinol o dro i dro, benthyg arian a rhoi arian blaenswm neu roi credyd ar unrhyw delerau, gyda sicrwydd neu hebddo i unrhyw berson; ymrwymo mewn gwarantau, contractau indemnio a meichiau o bob math; derbyn arian ar adnau neu ar fenthyg ar unrhyw delerau; a diogelu neu warantu mewn unrhyw fodd ac ar unrhyw delerau daliad unrhyw swm o arian neu gyflawni unrhyw ymrwymiad gan unrhyw berson;

(n) yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau neu amodau a roddir gan y Cwmni mewn cyfarfod cyffredinol o dro i dro, benthyg a chodi arian mewn unrhyw fodd a diogelu ad-daliad unrhyw arian a fenthycwyd neu a godwyd neu sy'n ddyledus drwy forgais, arwystl, sicrwydd safonol, hawlrwym neu sicrwydd arall ar y cyfan neu ar ran o eiddo neu asedau'r Cwmni (boed yn y presennol neu'r dyfodol) a hefyd drwy forgais, arwystl, sicrwydd safonol, hawlrwym neu sicrwydd cyffelyb i ddiogelu a gwarantu bod y Cwmni yn cyflawni unrhyw ymrwymiad neu atebolrwydd y gall ymgymryd ag ef neu a all ei rwymo;

(o) gweithredu cyfrifon banc a thynnu, gwneud, derbyn, ardystio, rhoi disgownt, negodi, gweithredu a dyroddi sieciau, nodau cyfnewid, nodau addewidiol, dyledebau ac offerynnau negodi neu drosglwyddadwy eraill;

(p) talu'r cyfan neu rai o'r treuliau a dynnwyd mewn cysylltiad â hybu, ffurfio ac ymgorffori'r Cwmni, neu gontractio ag unrhyw berson i dalu'r treuliau hynny;

(ph) gyda chaniatâd y Cwmni mewn cyfarfod cyffredinol, rhoi neu ddyfarnu pensiynau, blwydd-daliadau, arian rhodd, a phensiynau ymddeol neu lwfansau neu fudd-daliadau eraill neu gymorth elusennol ac yn gyffredinol darparu manteision, cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer unrhyw un sydd neu a fu yn gyfarwyddwyr y Cwmni, neu a gyflogwyd ganddo, neu sydd yn gwasanaethu neu wedi gwasanaethu'r Cwmni ac i briod, gweddw, plant a pherthnasau eraill a dibynyddion y bobl hynny; talu ar gyfer yswiriant; a llunio, sefydlu, cefnogi a chynnal pensiynau ymddeol a chronfeydd eraill neu gynlluniau (boed yn gyfrannol neu'n anghyfrannol) er budd unrhyw un o'r fath ac i briod, gweddw, plant a pherthnasau a dibynyddion eraill y bobl hynny;

(r) monitro a phenderfynu at ddibenion pleidleisio, neu at unrhyw ddiben arall, ddimensiynau ffisegol y Fangre ac unrhyw ran neu rannau o'r Fangre a chymryd neu sicrhau unrhyw fesuriadau priodol;

(rh) ymrwymo mewn unrhyw gytundebau neu drefniadau gydag unrhyw lywodraeth neu awdurdod (canolog, trefol, lleol, neu fel arall) a all ymddangos yn ffafriol er mwyn cyflawni amcanion y Cwmni, a sicrhau gan lywodraeth neu awdurdod o'r fath unrhyw siarteri, archddyfarniadau, hawliau, breintiau neu ildiadau y gall y Cwmni ystyried eu bod yn ddymunol, a chyflawni, arfer, a chydymffurfio ag unrhyw siarteri, archddyfarniadau, hawliau, breintiau neu ildiadau o'r fath;

(s) gwneud yr holl bethau a bennir am y tro gan erthyglau cymdeithasu'r Cwmni;

(t) gwneud neu sicrhau neu drefnu gwneud y cyfan neu unrhyw rai o'r materion a grybwyllir uchod yn unrhyw rhan o'r byd a naill ai fel penaethiaid, asiantwyr, contractwyr neu fel arall, a chan neu drwy asiantwyr,

broceriaid, is-gontractwyr neu fel arall a naill ai wrth ei hunan neu mewn cysylltiad ag eraill; ac

(th) gwneud yr holl bethau cyfreithlon eraill hynny a all fod yn gysylltiedig ag ymgyrch amcanion neu gyflawniad amcanion y Cwmni neu'n ffafriol iddo.

**5**. Defnyddir incwm y Cwmni, o ba le bynnag y deillia, yn unig er mwyn hybu amcanion y Cwmni, ac eithrio pan gaiff y Cwmni ei ddirwyn i ben, ni ddosrennir i'w aelodau mewn arian neu fel arall.

**6**. Mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig.

**7**. Mae pob aelod o'r Cwmni yn ymrwymo i gyfrannu y swm sy'n ofynnol, heb fod yn fwy na £1, at asedau'r Cwmni os caiff y Cwmni ei ddirwyn i ben tra bydd yn aelod, neu o fewn blwyddyn ar ôl iddo beidio â bod yn aelod, ar gyfer talu dyledion a rhwymedigaethau'r Cwmni a gontractiwyd cyn iddo beidio â bod yn aelod, a chostau, taliadau, a threuliau dirwyn y Cwmni i ben, ac ar gyfer addasu hawliau'r cyfranwyr ymysg ei gilydd.

**8**. Os bydd, pan gaiff y Cwmni ei ddirwyn i ben, unrhyw arian dros ben ar ôl bodloni ei holl ddyledion a rhwymedigaethau, telir neu dyrennir yr arian dros ben ymysg aelodau'r Cwmni.

**9**. Yn y Memorandwm hwn, mae cyfeiriad at Ddeddf yn cynnwys unrhyw addasiad statudol neu ailddeddfiad o'r Ddeddf sydd am y tro mewn grym.

Yr ydym ni sy'n danysgrifwyr i'r memorandwm cymdeithasu hwn yn dymuno cael ein ffurfio'n gwmni yn unol â'r memorandwm hwn.

Enwau a chyfeiriadau'r tanysgrifwyr:

Dyddiedig:

Tyst i'r llofnodion uchod:

Enw'r tyst:

Cyfeiriad y tyst:

# PART2

## ARTICLES OF ASSOCIATION

MEMORANDWM CYMDEITHASU : MEMORANDUM OF ASSOCIATION

**DEDDFAU CWMNÏAU 1985 A 1989**

**CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT SYDD HEB GYFALAF CYFRANNAU**

**MEMORANDWM CYMDEITHASU**

*ENW*

**[CWMNI RTM CYFYNGEDIG] [RTM COMPANY LIMITED]**

**1**. Enw'r cwmni yw [*enw*] [Cwmni RTM Cyfyngedig] [RTM Company Limited] (y "Cwmni").

**2**. Lleolir swyddfa gofrestredig y Cwmni yng Nghymru(**a**).

**3**. Yr amcanion dros sefydlu'r Cwmni yw caffael ac arfer yn unol â Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ("Deddf 2002") yr hawl i reoli'r fangre a elwir [*enw a chyfeiriad*] ("y Fangre"). Ni chaiff yr amcanion hyn eu dehongli'n gyfyng ond rhoddir y dehongliad ehangaf iddynt.

**4**. Er mwyn hyrwyddo'r amcanion, ond nid fel arall, bydd gan y Cwmni y pŵer i wneud popeth a gaiff ei awdurdodi neu sy'n ofynnol ei wneud gan gwmni RTM drwy ac o dan Ddeddf 2002, ac yn benodol (ond heb randdirymu grym cyffredinol yr uchod) -

(a) paratoi, gwneud, bwrw ymlaen â hawliad i gaffael yr hawl i reoli'r Fangre neu ei dynnu'n ôl;

(b) arfer swyddogaethau rheoli o dan lesoedd o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Fangre yn unol ag adrannau 96 a 97 o Ddeddf 2002;

(c) arfer swyddogaethau mewn perthynas â rhoi cymeradwyaethau o dan lesoedd hir o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Fangre yn unol ag adrannau 98 a 99 o Ddeddf 2002;

(ch) yn unol ag adrannau 100 a 101 o Ddeddf 2002, monitro, cadw golwg, adrodd i'r landlord, a sicrhau neu orfodi unrhyw berson i gyflawni telerau unrhyw gyfamod, ymgymeriad, dyletswydd neu ymrwymiad sy'n gysylltiedig mewn unrhyw fodd â'r Fangre neu'n effeithio arni neu unrhyw rai o'i meddianwyr;

(d) negodi a gwneud ceisiadau i amrywio lesoedd yn unol â Rhan 4 o Deddf Landlord a Thenant 1987 ("Deddf 1987");

(dd) gwneud y pethau eraill hynny a chyflawni'r swyddogaethau eraill hynny mewn perthynas â'r Fangre neu unrhyw lesoedd o'r cyfan neu unrhyw rhan o'r Fangre y gellir cytuno arnynt o dro i dro gyda'r landlord neu'r landlordiaid neu unrhyw bartïon eraill i'r les, yn ôl y digwydd;

(e) darparu a chynnal gwasanaethau ac amwynderau o bob disgrifiad mewn perthynas â'r Fangre; cynnal, trwsio, adnewyddu, ailaddurno, ailbeintio a glanhau'r Fangre; a thrin y tir, cynnal y tir, tirlunio a phlannu unrhyw dir, gerddi ac eiddo sy'n rhan o'r Fangre;

(f) ymrwymo mewn contractau ag adeiladwyr, addurnwyr, glanhawyr, tenantiaid, contractwyr, garddwyr, neu unrhyw berson arall; ymgynghori a chadw gwasanaeth unrhyw gynghorwyr proffesiynol a chyflogi unrhyw staff ac asiantwyr rheoli neu asiantwyr eraill; a thalu, gwobrwyo neu roi cydnabyddiaeth mewn unrhyw fodd i unrhyw berson sy'n cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i'r Cwmni;

(ff) gwneud unrhyw gytundebau priodol neu ganlyniadol neu drefniadau er mwyn i'r hawl i reoli'r Fangre beidio â bod yn arferadwy gan y Cwmni;

(a) Gweler y Ddeddf Gwmnïau 1985 adrannau 2(1) a (2) a 710B

(g) dyroddi a derbyn unrhyw hysbysiad, gwrth-hysbysiad, caniatâd neu gyfathrebiad arall a gohebu ynghylch y Fangre neu'r hyn sy'n effeithio arni mewn unrhyw fodd, rheoli'r Fangre, meddianwyr y Fangre, y Cwmni, unrhyw un o'i weithgareddau, neu unrhyw un o'i aelodau;

(ng) cychwyn, bwrw ymlaen, amddiffyn neu gymryd rhan mewn unrhyw gais i unrhyw lys neu dribiwnlys o unrhyw ddisgrifiad neu mewn unrhyw achos arall ger eu bron;

(h) yswirio'r Fangre neu unrhyw eiddo arall y Cwmni neu eiddo y mae ganddo fuddiant ynddo rhag difrod neu ddistryw a'r risgiau eraill hynny y gellir eu hystyried sy'n angenrheidiol, yn briodol neu'n ddymunol ac i yswirio'r Cwmni a'i gyfarwyddwyr, swyddogion neu archwilwyr rhag atebolrwydd cyhoeddus ac unrhyw risgiau eraill y gall ystyried ei bod yn ddoeth neu'n ddymunol i yswirio rhagddynt;

(i) casglu neu dderbyn arian oddi wrth unrhyw berson oherwydd taliadau gwasanaeth, taliadau gweinyddol a thaliadau eraill mewn perthynas â'r Fangre a phan fydd hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith, dal, buddsoddi a thrafod yr arian yn unol â darpariaethau Ddeddf 1987 ac unrhyw reoliadau neu orchymyn a wneir o dan y Ddeddf honno o dro i dro;

(j) sefydlu, gwneud a gweithredu unrhyw ymddiriedolaethau y gellir yn gyfreithiol, neu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, eu sefydlu, eu gwneud neu eu gweithredu gan y Cwmni;

(l) sefydlu a chynnal cronfeydd cyfalaf wrth gefn, cronfeydd rheoli ac unrhyw ffurf ar gronfa ad-dalu er mwyn talu, neu gyfrannu tuag at, holl ffioedd, costau, a threuliau eraill a dynnwyd wrth weithredu amcanion y Cwmni;

(ll) buddsoddi unrhyw arian sydd gan y Cwmni yn y Deyrnas Unedig drwy ei adneuo gyda llog gydag unrhyw sefydliad ariannol lle gellir dal cronfa ymddiriedolaeth o gyfraniadau taliadau gwasanaeth yn unol â Deddf 1987; neu ei fuddsoddi mewn modd arall (gan gynnwys prynu gwarannau a buddsoddiadau eraill) y bydd y Cwmni yn ei awdurdodi o dro i dro mewn cyfarfod cyffredinol; a dal, gwerthu neu waredu fel arall unrhyw fuddsoddiadau o'r fath;

(m) yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau neu amodau a roddir gan y Cwmni mewn cyfarfod cyffredinol o dro i dro, benthyg arian a rhoi arian blaenswm neu roi credyd ar unrhyw delerau, gyda sicrwydd neu hebddo i unrhyw berson; ymrwymo mewn gwarantau, contractau indemnio a meichiau o bob math; derbyn arian ar adnau neu ar fenthyg ar unrhyw delerau; a diogelu neu warantu mewn unrhyw fodd ac ar unrhyw delerau daliad unrhyw swm o arian neu gyflawni unrhyw ymrwymiad gan unrhyw berson;

(n) yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau neu amodau a roddir gan y Cwmni mewn cyfarfod cyffredinol o dro i dro, benthyg a chodi arian mewn unrhyw fodd a diogelu ad-daliad unrhyw arian a fenthycwyd neu a godwyd neu sy'n ddyledus drwy forgais, arwystl, sicrwydd safonol, hawlrwym neu sicrwydd arall ar y cyfan neu ar ran o eiddo neu asedau'r Cwmni (boed yn y presennol neu'r dyfodol) a hefyd drwy forgais, arwystl, sicrwydd safonol, hawlrwym neu sicrwydd cyffelyb i ddiogelu a gwarantu bod y Cwmni yn cyflawni unrhyw ymrwymiad neu atebolrwydd y gall ymgymryd ag ef neu a all ei rwymo;

(o) gweithredu cyfrifon banc a thynnu, gwneud, derbyn, ardystio, rhoi disgownt, negodi, gweithredu a dyroddi sieciau, nodau cyfnewid, nodau addewidiol, dyledebau ac offerynnau negodi neu drosglwyddadwy eraill;

(p) talu'r cyfan neu rai o'r treuliau a dynnwyd mewn cysylltiad â hybu, ffurfio ac ymgorffori'r Cwmni, neu gontractio ag unrhyw berson i dalu'r treuliau hynny;

(ph) gyda chaniatâd y Cwmni mewn cyfarfod cyffredinol, rhoi neu ddyfarnu pensiynau, blwydd-daliadau, arian rhodd, a phensiynau ymddeol neu lwfansau neu fudd-daliadau eraill neu gymorth elusennol ac yn gyffredinol darparu manteision, cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer unrhyw un sydd neu a fu yn gyfarwyddwyr y Cwmni, neu a gyflogwyd ganddo, neu sydd yn gwasanaethu neu wedi gwasanaethu'r Cwmni ac i briod, gweddw, plant a pherthnasau eraill a dibynyddion y bobl hynny; talu ar gyfer yswiriant; a llunio, sefydlu, cefnogi a chynnal pensiynau ymddeol a chronfeydd eraill neu gynlluniau (boed yn gyfrannol neu'n anghyfrannol) er budd unrhyw un o'r fath ac i briod, gweddw, plant a pherthnasau a dibynyddion eraill y bobl hynny;

(r) monitro a phenderfynu at ddibenion pleidleisio, neu at unrhyw ddiben arall, ddimensiynau ffisegol y Fangre ac unrhyw ran neu rannau o'r Fangre a chymryd neu sicrhau unrhyw fesuriadau priodol;

(rh) ymrwymo mewn unrhyw gytundebau neu drefniadau gydag unrhyw lywodraeth neu awdurdod (canolog, trefol, lleol, neu fel arall) a all ymddangos yn ffafriol er mwyn cyflawni amcanion y Cwmni, a sicrhau gan lywodraeth neu awdurdod o'r fath unrhyw siarteri, archddyfarniadau, hawliau, breintiau neu ildiadau y gall y Cwmni ystyried eu bod yn ddymunol, a chyflawni, arfer, a chydymffurfio ag unrhyw siarteri, archddyfarniadau, hawliau, breintiau neu ildiadau o'r fath;

(s) gwneud yr holl bethau a bennir am y tro gan erthyglau cymdeithasu'r Cwmni;

(t) gwneud neu sicrhau neu drefnu gwneud y cyfan neu unrhyw rai o'r materion a grybwyllir uchod yn unrhyw rhan o'r byd a naill ai fel penaethiaid, asiantwyr, contractwyr neu fel arall, a chan neu drwy asiantwyr,

broceriaid, is-gontractwyr neu fel arall a naill ai wrth ei hunan neu mewn cysylltiad ag eraill; ac

(th) gwneud yr holl bethau cyfreithlon eraill hynny a all fod yn gysylltiedig ag ymgyrch amcanion neu gyflawniad amcanion y Cwmni neu'n ffafriol iddo.

**5**. Defnyddir incwm y Cwmni, o ba le bynnag y deillia, yn unig er mwyn hybu amcanion y Cwmni, ac eithrio pan gaiff y Cwmni ei ddirwyn i ben, ni ddosrennir i'w aelodau mewn arian neu fel arall.

**6**. Mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig.

**7**. Mae pob aelod o'r Cwmni yn ymrwymo i gyfrannu y swm sy'n ofynnol, heb fod yn fwy na £1, at asedau'r Cwmni os caiff y Cwmni ei ddirwyn i ben tra bydd yn aelod, neu o fewn blwyddyn ar ôl iddo beidio â bod yn aelod, ar gyfer talu dyledion a rhwymedigaethau'r Cwmni a gontractiwyd cyn iddo beidio â bod yn aelod, a chostau, taliadau, a threuliau dirwyn y Cwmni i ben, ac ar gyfer addasu hawliau'r cyfranwyr ymysg ei gilydd.

**8**. Os bydd, pan gaiff y Cwmni ei ddirwyn i ben, unrhyw arian dros ben ar ôl bodloni ei holl ddyledion a rhwymedigaethau, telir neu dyrennir yr arian dros ben ymysg aelodau'r Cwmni.

**9**. Yn y Memorandwm hwn, mae cyfeiriad at Ddeddf yn cynnwys unrhyw addasiad statudol neu ailddeddfiad o'r Ddeddf sydd am y tro mewn grym.

Yr ydym ni sy'n danysgrifwyr i'r memorandwm cymdeithasu hwn yn dymuno cael ein ffurfio'n gwmni yn unol â'r memorandwm hwn.

Enwau a chyfeiriadau'r tanysgrifwyr:

Dyddiedig:

Tyst i'r llofnodion uchod:

Enw'r tyst:

Cyfeiriad y tyst:

**DEDDFAU CWMNÏAU 1985 A 1989**

**CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT SYDD HEB GYFALAF CYFRANNAU**

**ERTHYGLAU CYMDEITHASU**

*[ENW]*

**[CWMNI RTM CYFYNGEDIG] [RTM COMPANY LIMITED]**

## DEHONGLI

**1**. Yn yr erthyglau hyn -

mae i "cyfathrebiad" a "cyfathrebiad electronig" yr ystyron sydd i "communication" ac "electronic communication" yn Neddf Cyfathrebu Electronig 2000(**a**);

mae "cyfeiriad" ("*address*"), mewn perthynas â chyfathrebu electronig, yn cynnwys unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion cyfathrebu o'r fath;

ystyr y "Cwmni" ("*the Company*") yw [*enw*] [Cwmni RTM Cyfyngedig] [RTM Company Limited];

ystyr "Deddf 2002" ("the 2002 Act") yw Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002;

ystyr "dyddiau clir" ("*clear days*"), mewn perthynas â chyfnod hysbysiad, yw'r cyfnod heb gynnwys y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad neu y bernir iddo gael ei roi a'r diwrnod y rhoddir ef ar ei gyfer neu'r diwrnod pan fydd yn effeithiol;

ystyr "landlord uniongyrchol" ("*immediate landlord*"), mewn perthynas ag uned yn y Fangre, yw -

(a) os yw'r uned yn ddarostyngedig i les, y person sydd yn landlord o dan y les; neu

(b) os yw'r uned yn ddarostyngedig i un neu fwy o lesoedd, y landlord o dan ba un bynnag o'r lesoedd sy'n israddol i'r lleill;

ystyr "swyddfa gofrestredig" ("*registered office*") yw swyddfa gofrestredig y Cwmni;

ystyr "uned breswyl" ("*residential unit*") yw fflat neu unrhyw fangre arall ar wahân a godwyd neu a addaswyd at ddibenion annedd;

ystyr "y Ddeddf Cwmnïau" ("*the Companies Act*") yw Deddf Cwmnïau 1985(**b**);

ystyr "y Fangre" ("*the Premises*") yw [*enw a chyfeiriad*]; ac

ystyr "ysgrifennydd" ("*secretary*") yw ysgrifennydd y Cwmni neu unrhyw berson arall a benodwyd i gyflawni dyletswyddau ysgrifennydd y Cwmni, gan gynnwys cyd-ysgrifennydd, ysgrifennydd cynorthwyol neu ddirprwy ysgrifennydd.

**2**. Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i eiriau ac ymadroddion a geir yn yr erthyglau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf Cwmnïau.

**3.** Yn yr erthyglau hyn, mae cyfeiriad at Ddeddf yn cynnwys unrhyw addasiad statudol neu ailddeddfiad o'r Ddeddf sydd am y tro mewn grym.

---

(a) 2000 p.7. *Gweler* adran 15 o'r Ddeddf honno.

(a) 1985 p.6.

**AELODAU**

**4**. Yn ddarostyngedig i'r erthyglau canlynol, y tanysgrifwyr i Femorandwm Cymdeithasu'r Cwmni, a'r personau eraill hynny a gaiff eu derbyn yn aelodau yn unol â'r erthyglau hyn fydd aelodau'r Cwmni. Ni ellir trosglwyddo aelodaeth o'r Cwmni.

**5**. Ni chaiff neb ei dderbyn yn aelod o'r Cwmni onid yw'r person hwnnw, boed ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill -

(a) yn denant cymwys o fflat sydd yn y Fangre a bennir yn adran 75 o Ddeddf 2002; neu

(b) o'r dyddiad pan fydd y Cwmni'n caffael yr hawl i reoli'r Fangre yn unol â Deddf 2002, yn landlord o dan les o'r cyfan neu ran o'r Fangre.

**6**. Bernir bod person, ynghyd â rhywun arall neu rywrai eraill, i'w farnu fel cyd-denant cymwys o fflat, neu fel cyd-landlord o dan les o'r cyfan neu ran o'r Fangre, pan gaiff ei dderbyn, yn gyd-aelod o'r Cwmni mewn perthynas â'r fflat neu'r les honno (yn ôl y digwydd).

**7**. Rhaid i bob person sydd â'r hawl i fod, ac sy'n dymuno dod yn aelod o'r Cwmni, gyflwyno cais am aelodaeth i'r Cwmni wedi'i gyflawni ganddo yn y ffurf ganlynol (neu mewn ffurf sydd mor agos at y ffurf ganlynol ag y mae amgylchiadau'n caniatáu neu mewn unrhyw ffurf arall sy'n arferol neu ffurf a gaiff ei chymeradwyo gan y cyfarwyddwyr) -

*I Fwrdd [enw'r Cwmni]*

*Yr wyf i, [enw]*

*o [cyfeiriad]*

*yn denant cymwys o [cyfeiriad y fflat] ac yn dymuno dod yn aelod o [enw'r Cwmni] yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni ac i unrhyw Reolau a wnaed o dan yr Erthyglau hynny. Yr wyf yn cytuno talu i'r Cwmni swm hyd at £1 os caiff y Cwmni ei ddirwyn i ben tra byddaf yn aelod neu hyd at 12 mis ar ôl i mi beidio â bod yn aelod.*

*Llofnodwyd:……………………………*

*Dyddiedig:……………………………*

**8**. Rhaid i geisiadau am aelodaeth gan bersonau sydd i'w barnu fel rhai sy'n gyd-denant cymwys fflat, neu sy'n gyd-landlord o dan les o'r cyfan neu unrhyw rhan o'r Fangre, roi enwau a chyfeiriad pawb arall sydd â buddiant ar y cyd â hwy, ac ym mha drefn y maent yn dymuno ymddangos ar gofrestr yr aelodau mewn perthynas â'r cyfryw fflat neu les (yn ôl y digwydd).

**9**. Rhaid i'r cyfarwyddwyr, pan fyddant yn fodlon ar gais y person a'i hawl i aelodaeth, gofrestru'r cyfryw berson yn aelod o'r Cwmni.

**10**. Wrth i'r Cwmni ddod yn gwmni RTM mewn perthynas â'r Fangre, bydd unrhyw danysgrifiwr i'r Memorandwm Cymdeithasu nad yw hefyd yn bodloni'r gofynion ar gyfer aelodaeth a nodir yn erthygl 5 uchod yn peidio â bod yn aelod o'r Cwmni ar unwaith. Bydd unrhyw aelod nad yw ar unrhyw adeg yn bodloni'r gofynion hynny hefyd yn peidio â bod yn aelod o'r Cwmni ar unwaith.

**11**. Os bydd aelod (neu gyd-aelod) yn marw neu'n mynd yn fethdalwr, bydd gan ei gynrychiolwyr personol neu ymddiriedolwyr mewn methdaliad yr hawl i'w cofrestru yn aelod (neu gyd-aelod yn ôl y digwydd) drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Cwmni.

**12**. Caiff aelod dynnu allan o'r Cwmni a thrwy hynny beidio â bod yn aelod drwy hysbysu'r Cwmni'n ysgrifenedig o leiaf saith diwrnod clir ymlaen llaw. Ni fydd hysbysiad o'r fath yn effeithiol os rhoddir ef yn y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r Cwmni'n cyflwyno hysbysiad o'i hawliad i gaffael yr hawl i reoli'r Fangre ac yn diweddu ar y dyddiad sydd naill ai -

(a) yn ddyddiad caffael yn unol ag adran 90 o Ddeddf 2002; neu

(b) yn ddyddiad tynnu'r hysbysiad yn ôl neu y bernir iddo gael ei dynnu'n ôl yn unol ag adran 86 neu 87 o'r Ddeddf honno.

**13**. Os bydd, am unrhyw reswm -

(a) person nad yw'n aelod o'r Cwmni yn dod yn denant cymwys neu landlord ar y cyd â phersonau sydd yn

aelodau o'r Cwmni, ond yn methu gwneud cais am aelodaeth o fewn 28 diwrnod, neu

(b) aelod sydd yn denant cymwys neu landlord ar y cyd â phersonau o'r fath yn marw neu'n mynd yn fethdalwr ac nad yw ei gynrychiolwyr personol neu ymddiriedolwr mewn methdaliad yn gwneud cais am aelodaeth o fewn 56 diwrnod yn unol ag erthygl 11, neu

(c) aelod sydd yn denant cymwys neu landlord ar y cyd â phersonau eraill o'r fath yn ildio ei aelodaeth yn unol ag erthygl 12,

bydd y personau hynny, onid oes ganddynt hawl fel arall i fod yn aelodau o'r Cwmni o achos eu buddiant mewn rhyw fflat neu les arall, hefyd yn peidio â bod yn aelodau o'r Cwmni ar unwaith. Er hynny, bydd gan y personau hynny yr hawl i ailgeisio am aelodaeth yn unol ag erthyglau 7 i 9.

## CYFARFODYDD CYFFREDINOL

**14**. Gelwir pob cyfarfod cyffredinol, heblaw cyfarfodydd cyffredinol blynyddol, yn gyfarfodydd cyffredinol eithriadol.

**15**. Caiff y cyfarwyddwyr alw cyfarfodydd cyffredinol ac, ar gais aelodau yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Cwmnïau, rhaid iddynt fynd rhagddynt yn ddiymdroi (a beth bynnag o fewn un diwrnod ar hugain) i gynnull cyfarfod cyffredinol eithriadol ar ddyddiad na fydd y fwy nag wyth diwrnod ar hugain ar ôl dyddiad yr hysbysiad sy'n cynnull y cyfarfod. Os nad oes digon o gyfarwyddwyr o fewn y Deyrnas Unedig i alw cyfarfod cyffredinol, caiff unrhyw gyfarwyddwr neu unrhyw aelod o'r Cwmni alw cyfarfod cyffredinol.

**16**. Rhaid cynnal pob cyfarfod cyffredinol yn y Fangre neu mewn lleoliad addas arall gerllaw'r Fangre ac o fewn cyrraedd rhesymol i'r holl aelodau.

## HYSBYSIAD O GYFARFODYDD CYFFREDINOL

**17**. Rhaid galw cyfarfod cyffredinol blynyddol a chyfarfod cyffredinol eithriadol ar gyfer pasio penderfyniad arbennig neu basio penderfyniad yn penodi person yn gyfarwyddwr drwy hysbysiad o leiaf un diwrnod ar hugain clir ymlaen llaw. Rhaid galw pob cyfarfod cyffredinol eithriadol arall drwy hysbysiad o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg clir ymlaen llaw ond ceir galw cyfarfod cyffredinol drwy hysbysiad am gyfnod byrrach os cytunir ar hynny -

(a) yn achos cyfarfod cyffredinol blynyddol, gan yr holl aelodau sydd â hawl i fod yn bresennol ac i bleidleisio; a

(b) yn achos unrhyw gyfarfod arall, drwy fwyafrif yn nifer yr aelodau sydd â hawl i fod yn bresennol ac i bleidleisio, sef mwyafrif sydd gyda'i gilydd yn dal dim llai na naw deg pump y cant o gyfanswm yr hawliau pleidleisio yng nghyfarfod yr holl aelodau.

**18**. Rhaid i'r hysbysiad bennu amser a lle'r cyfarfod ac, yn achos cyfarfod cyffredinol blynyddol, pennu mai cyfarfod felly ydyw.

**19**. Rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys neu amgáu datganiad ac esboniad o natur gyffredinol y busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod.

**20**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthyglau hyn, rhaid rhoi'r hysbysiad i'r holl aelodau a'r cyfarwyddwyr a'r archwilwyr.

**21**. Ni fydd methiant damweiniol i hysbysu cyfarfod i unrhyw berson sydd â hawl i gael ei hysbysu, neu os na ddaw hysbysiad o gyfarfod i law'r cyfryw berson, yn annilysu'r trafodion yn y cyfarfod hwnnw.

## TRAFODION MEWN CYFARFODYDD CYFFREDINOL

**22**. Ni thrafodir unrhyw fusnes mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol oni chafodd ei gynnwys yn yr hysbysiad i gynnull y cyfarfod yn unol ag erthygl 19.

**23**. Ni thrafodir unrhyw fusnes mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol oni fydd cworwm yn bresennol. Y cworwm ar gyfer y cyfarfod fydd 20% o aelodau'r Cwmni sydd â hawl i bleidleisio ar y busnes sydd i'w drafod, neu ddau aelod o'r Cwmni â'r hawl hwnnw (pa un bynnag yw'r mwyaf) sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy.

**24**. Os nad oes cworwm o'r fath yn bresennol o fewn hanner awr o'r amser a benodwyd ar gyfer y cyfarfod, neu os bydd cworwm o'r fath yn peidio â bod yn bresennol yn ystod y cyfarfod, caiff y cyfarfod ei ohirio i'r un diwrnod yn yr wythnos ganlynol ar yr un amser ac yn yr un lle neu i'r amser a'r lle y caiff y cyfarwyddwyr benderfynu arno.

**25**. Rhaid i gadeirydd y bwrdd cyfarwyddwyr, os oes un, neu yn ei absenoldeb rhyw gyfarwyddwr arall a

enwebir gan y cyfarwyddwyr, lywyddu fel cadeirydd y cyfarfod, ond os nad yw'r cadeirydd na'r cyfarwyddwr arall hwnnw (os oes un) yn bresennol o fewn pymtheg munud ar ôl yr amser a benodwyd i gynnal y cyfarfod ac yn barod i weithredu, rhaid i'r cyfarwyddwyr sy'n bresennol ethol un o'u plith i fod yn gadeirydd ac, os mai un cyfarwyddwr yn unig sy'n bresennol ac yn barod i weithredu, y cyfarwyddwr hwnnw fydd y cadeirydd.

**26**. Os nad oes unrhyw gyfarwyddwr yn barod i weithredu fel cadeirydd, neu os nad oes unrhyw gyfarwyddwr yn bresennol o fewn pymtheg munud ar ôl yr amser a benodwyd ar gyfer cynnal y cyfarfod, rhaid i'r aelodau sy'n bresennol â hawl i bleidleisio ddewis un o'u plith i fod yn gadeirydd.

**27**. Bydd gan gyfarwyddwr, boed yn aelod neu beidio, yr hawl i fod yn bresennol, siarad a chynnig (ond, yn ddarostyngedig i erthygl 33, ddim i bleidleisio) ar benderfyniad mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol o'r Cwmni.

**28**. Caiff y cadeirydd, gyda chydsyniad y cyfarfod lle mae cworwm yn bresennol (a rhaid iddo os cyfarwyddir ef gan y cyfarfod), ohirio'r cyfarfod o dro i dro ac o le i le, ond ni thrafodir unrhyw fusnes mewn cyfarfod a ohiriwyd heblaw busnes y gellid yn briodol fod wedi ei drafod yn y cyfarfod pe na bai'r gohiriad wedi digwydd. Pan gaiff cyfarfod ei ohirio am bedwar diwrnod ar ddeg neu fwy, rhaid rhoi o leiaf saith diwrnod clir o hysbysiad yn pennu'r amser a lle'r cyfarfod a ohiriwyd a natur gyffredinol y busnes sydd i'w drafod. Neu fel arall ni fydd angen rhoi hysbysiad o'r fath.

**29**. Pan bleidleisir ar benderfyniad mewn cyfarfod, penderfynir arno drwy ddangos dwylo oni hawlir pôl yn briodol naill ai cyn, neu ar gyhoeddiad, canlyniad y dangos dwylo. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Cwmnïau, gellir hawlio pôl -

(a) gan y cadeirydd; neu

(b) gan o leiaf ddau aelod sydd â'r hawl i bleidleisio yn y cyfarfod; neu

(c) gan aelod neu aelodau sy'n cynrychioli dim llai na degfed ran o gyfanswm hawl bleidleisio yr holl aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio yn y cyfarfod;

a bydd hawliad gan berson sydd yn ddirprwy i aelod yr un fath â hawliad gan yr aelod.

**30**. Oni hawlir pôl yn briodol, bydd datganiad gan y cadeirydd bod penderfyniad wedi cael ei gario neu ei gario'n unfrydol, neu drwy fwyafrif penodol, neu wedi'i golli, neu heb ei gario gan fwyafrif penodol a bydd cofnod i'r perwyl hwnnw yng nghofnodion y cyfarfod yn dystiolaeth derfynol o'r ffaith heb brawf o nifer neu gyfran y pleidleisiau a gofnodwyd o blaid neu yn erbyn y penderfyniad.

**31**. Gall hawliad am bôl, cyn pleidleisio, gael ei dynnu'n ôl ond gyda chydsyniad y cadeirydd yn unig a bernir na fydd hawliad a dynnir yn ôl yn gwneud y canlyniad wrth ddangos dwylo cyn i'r hawliad gael ei wneud, yn annilys.

**32**. Caiff pôl ei gynnal yn ôl cyfarwyddyd y cadeirydd a chaiff benodi pobl i graffu (nad ydynt o anghenraid yn aelodau) a threfnu amser a lle i ddatgan canlyniad y pôl. Bernir mai penderfyniad y cyfarfod yr hawliwyd pôl ynddo fydd canlyniad y pôl.

**33**. Os bydd y pleidleisiau'n gyfartal, boed drwy ddangos dwylo neu drwy bôl, bydd gan y cadeirydd hawl i bleidlais fwrw yn ychwanegol at unrhyw bleidlais arall a all fod ganddo.

**34**. Os hawlir pôl ar ethol cadeirydd neu ar ohirio rhaid ei chymryd ar unwaith. Rhaid cymryd pôl a hawlir ar unrhyw gwestiwn arall naill ai ar unwaith neu ar yr amser ac yn y lle yn ôl cyfarwyddyd y cadeirydd, heb fod yn fwy na deg diwrnod ar hugain ar ôl hawlio'r bôl. Ni fydd yr hawliad am bôl yn rhwystro'r cyfarfod rhag parhau i drafod unrhyw fusnes heblaw'r cwestiwn yr hawliwyd pôl arno. Os hawlir pôl cyn datgan canlyniad ar ôl dangos dwylo a bod yr hawliad yn cael ei dynnu'n ôl yn briodol, bydd y cyfarfod yn parhau fel pe bai'r hawliad heb gael ei wneud.

**35**. Nid oes angen hysbysu pôl nas cymerir ar unwaith os cyhoeddir amser a lle pan gaiff ei chymryd yn y cyfarfod yr hawlir hi ynddo. Mewn unrhyw achos arall rhaid rhoi hysbysiad sydd o leiaf yn saith diwrnod clir o flaen llaw yn pennu'r amser a'r lle pan gymerir y pôl.

**36**. Bydd penderfyniad ysgrifenedig a gyflawnir gan neu ar ran pob aelod y byddai ganddo hawl i bleidleisio arno pe bai wedi cael ei gynnig mewn cyfarfod cyffredinol yr oedd yn bresennol ynddo lawn mor effeithiol â phe bai wedi ei basio mewn cyfarfod cyffredinol wedi'i gynnull a'i gynnal yn briodol a gall ei fod yn cynnwys nifer o offerynnau ar ffurf debyg a phob offeryn wedi'i gyflawni gan neu ar ran un neu fwy o'r aelodau.

**PLEIDLEISIAU'R AELODAU**

**37**. Wrth ddangos dwylo bydd gan bob aelod (sef unigolyn) sydd yn bresennol yn bersonol neu (os yw'n gorfforaeth) yn bresennol drwy gynrychiolydd wedi'i awdurdodi'n briodol, nad yw ei hunan yn aelod â hawl i bleidleisio, un bleidlais ac mewn pôl, bydd gan bob aelod y nifer o bleidleisiau a benderfynir yn unol ag erthyglau 38 to 40.

**38**. Os nad oes landlordiaid o dan lesoedd o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Fangre sy'n aelodau o'r Cwmni, yna bydd un bleidlais ar gael i'w bwrw mewn perthynas â phob fflat yn y Fangre. Caiff y bleidlais ei bwrw gan yr aelod sy'n denant cymwys y fflat.

**39**. Ar unrhyw adeg pan fydd unrhyw landlordiaid o dan lesoedd o'r cyfan neu unrhyw rhan o'r Fangre sydd yn aelodau o'r Cwmni, penderfynir ar y pleidleisiau sydd ar gael i'w bwrw fel a ganlyn -

(a) yn gyntaf dyrennir i bob uned breswyl yn y Fangre yr un nifer o bleidleisiau sy'n hafal i gyfanswm nifer aelodau'r Cwmni sydd yn landlordiaid o dan lesoedd o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Fangre. Caiff landlordiaid o dan les y bernir eu bod yn gyd-aelod o'r Cwmni eu cyfrif fel un aelod at y diben hwn;

(b) os bydd y Fangre ar unrhyw adeg yn cynnwys unrhyw ran ddibreswyl, dyrennir cyfanswm nifer y pleidleisiau i'r rhan honno sy'n hafal i gyfanswm nifer y pleidleisiau a ddyrannwyd i'r unedau preswyl wedi'i luosi â ffactor o A/B, ac A yw cyfanswm arwynebedd llawr mewnol y rhannau dibreswyl a B yw cyfanswm arwynebedd llawr mewnol yr holl rannau preswyl. Penderfynir ar arwynebedd llawr mewnol yn unol â pharagraff 1(4) o Atodlen 6 i Ddeddf 2002. Rhaid cyfrifo mesur arwynebedd y llawr mewnol mewn metrau sgwâr, rhaid anwybyddu ffracsiynau o arwynebedd llawr llai na hanner metr sgwâr a rhaid cyfrif ffracsiynau o arwynebedd llawr dros hanner metr sgwâr fel metr sgwâr cyfan;

(c) gan yr aelod sydd yn denant cymwys yr uned breswyl fydd yr hawl i fwrw'r bleidlais a ddyrannwyd i'r uned honno, neu os nad oes aelod sy'n denant cymwys o uned, gan yr aelod sydd yn landlord uniongyrchol;

(ch) bydd yr hawl i fwrw'r bleidlais a ddyrennir i unrhyw ran ddibreswyl yn y Fangre gan landlord uniongyrchol y rhan hwnnw, neu os nad oes les o ran ddibreswyl, gan y rhydd-ddeiliad. Os bydd mwy nag un person o'r fath, dyrennir cyfanswm nifer y pleidleisiau i'r rhan ddibreswyl rhyngddynt yn ôl cyfran arwynebedd llawr mewnol eu rhannau perthnasol. Anwybyddir unrhyw hawl canlyniadol i ffracsiwn o bleidlais;

(d) os nad yw uned breswyl yn ddarostyngedig i unrhyw les, ni fydd hawl bwrw pleidlais mewn perthynas â hi;

(dd) bydd gan unrhyw berson sy'n landlord o dan les neu lesoedd o'r cyfan neu unrhyw ran o'r Fangre ac sy'n aelod o'r Cwmni ond nad oes ganddo hawl fel arall i unrhyw bleidlais, yr hawl i un bleidlais.

**40**. Yn achos personau y bernir eu bod yn gydaelodau o'r Cwmni, caiff unrhyw berson o'r fath arfer yr hawl i bleidleisio y mae gan yr aelodau hynny hawl ar y cyd iddynt, ond os bydd mwy nag un person o'r fath yn cyflwyno pleidlais, boed yn bersonol neu drwy ddirprwy, caiff pleidlais y blaenaf ei derbyn tra gwaherddir pleidleisiau'r lleill, a rhoddir y flaenoriaeth yn ôl y drefn y mae enwau'r personau hynny'n ymddangos yn y gofrestr aelodau mewn perthynas â'r fflat neu'r les (yn ôl y digwydd) y mae ganddynt fuddiant ynddi.

**41**. Rhaid i'r Cwmni gadw cofrestr yn dangos hawliau priodol pob un o'i aelodau i bleidleisio mewn pôl mewn unrhyw gyfarfod Cwmni.

**42**. Rhaid cyfeirio unrhyw wrthwynebiad i gymhwyster unrhyw bleidleisiwr neu gyfrifiant nifer y pleidleisiau y mae ganddo hawl iddynt a godir mewn amser priodol mewn cyfarfod neu gyfarfod a ohiriwyd i gadeirydd y cyfarfod, a bydd ei benderfyniad, at bob diben sy'n ymwneud â'r cyfarfod hwnnw neu gyfarfod a ohiriwyd, yn derfynol a phendant. Yn ddarostyngedig i hynny, rhaid cyfeirio unrhyw anghydfod rhwng unrhyw aelod a'r Cwmni neu unrhyw aelod arall, sy'n deillio o gontract aelodaeth yr aelod ac sy'n ymwneud â mesurau arwynebedd llawr, i'w benderfynu gan syrfëwr siartredig annibynnol wedi'i ddethol drwy gytundeb rhwng y partïon neu, os na cheir cytundeb, gan Lywydd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Bydd y syrfëwr siartredig annibynnol hwnnw, wrth benderfynu ar fesuriadau yr arwynebedd llawr o dan sylw, yn gweithredu fel arbenigwr ac nid fel cymrodeddwr a bydd ei benderfyniad yn derfynol a phendant. Bydd y Cwmni'n gyfrifol i'r cyfryw syrfëwr am dalu ei ffioedd a'i dreuliau, ond bydd gan y syrfëwr y pwer, yn llwyr yn ôl ei ddisgresiwn, i gyfarwyddo yr ad-delir rhywfaint neu'r cyfan o'r ffioedd a'r treuliau hynny gan yr aelod(au) o dan sylw i'r Cwmni, a phan ddigwydd hynny rhaid i'r aelod(au) dalu'r arian i'r Cwmni ar unwaith.

**43**. Caiff aelod y gwnaed gorchymyn gan unrhyw lys sydd ag awdurdodaeth (boed yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall) mewn materion ynghylch salwch meddwl mewn perthynas ag ef, bleidleisio boed drwy ddangos dwylo neu bôl, drwy ei dderbynnydd, curator bonis neu rywun arall, a awdurdodwyd yn y cyswllt hwnnw a benodwyd gan y llys hwnnw, a chaiff unrhyw dderbynnydd, curator bonis neu berson arall o'r fath, mewn pôl, bleidleisio drwy ddirprwy. Rhaid adneuo tystiolaeth sy'n bodloni'r cyfarwyddwyr o awdurdod y person sy'n honni arfer yr hawl i bleidleisio yn y swyddfa gofrestredig, neu mewn lle arall a bennir yn unol â'r erthyglau hyn ar gyfer

adneuo offerynnau drwy ddirprwy, ddim llai na 48 awr cyn yr amser a benodwyd i gynnal y cyfarfod neu gyfarfod a ohiriwyd lle mae'r hawl i bleidleisio i'w harfer ac yn niffyg hynny ni fydd yr hawl i bleidleisio yn arferadwy.

**44**.Mewn pôl gellir pleidleisio naill ai yn bersonol neu drwy ddirprwy. Caiff aelod benodi mwy nag un dirprwy i fod yn bresennol ar yr un achlysur.

**45**. Rhaid i offeryn sy'n penodi dirprwy fod yn ysgrifenedig, a rhaid ei gyflawni gan neu ar ran y penodwr a rhaid iddo fod ar y ffurf ganlynol (neu mewn ffurf sydd mor agos at y ffurf ganlynol ag y mae amgylchiadau'n caniatáu neu mewn unrhyw ffurf arall sy'n arferol neu ffurf y bydd y cyfarwyddwyr yn ei chymeradwyo) -

*[Enw'r Cwmni]*

*Mae [enw'r aelod(au)], o [cyfeiriad], sef aelod/aelodau o'r Cwmni a enwir uchod, drwy hyn yn penodi [enw] o[cyfeiriad],*

*neu os nad ef neu hi, [enw] o [cyfeiriad], yn ddirprwy i mi/ni i bleidleisio yn fy enw/ein henw ac ar fy rhan/ar ein rhan yng nghyfarfod cyffredinolblynyddol/eithriadol y Cwmni sydd i'w gynnal ar [dyddiad] ac yn unrhyw ohiriad o'r cyfarfod*

*Llofnodwyd ar: [dyddiad]*

**46**. Os dymunir rhoi'r cyfle i aelodau i gyfarwyddo'r dirprwy sut y mae i weithredu, rhaid i'r offeryn sy'n penodi'r dirprwy fod ar y ffurf ganlynol (neu mewn ffurf sydd mor agos at y ffurf ganlynol ag y mae amgylchiadau'n caniatáu neu mewn unrhyw ffurf arall sy'n arferol neu ffurf y bydd y cyfarwyddwyr yn ei chymeradwyo) -

[*Enw'r Cwmni]*

*Mae [enw'r aelod(au)], o [cyfeiriad], sef aelod/aelodau o'r Cwmni a enwir uchod, drwy hyn yn penodi [enw] o [cyfeiriad], neu os nad ef neu hi, [enw] o [cyfeiriad], yn ddirprwy i mi/ni i bleidleisio yn fy enw/ein henw ac ar fy rhan/ar ein rhan yng nghyfarfod cyffredinol/ blynyddol/eithriadol y Cwmni sydd i'w gynnal ar [dyddiad], ac yn unrhyw ohiriad o'r cyfarfod. Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio mewn perthynas â'r penderfyniadau a grybwyllir isod fel a ganlyn:*

*Penderfyniad Rhif.1:[dros][yn erbyn]*

*Penderfyniad Rhif.2 :[dros][yn erbyn]*

*[Dileer yr un nad oes ei angen]*

*Oni chyfarwyddir yn wahanol, caiff y dirprwy bleidleisio fel y gwêl orau neu ymatal rhag pleidleisio.*

*Llofnodwyd ar:[dyddiad]*

**47**. Caiff yr offeryn sy'n penodi dirprwy ac unrhyw awdurdod y cyflawnir ef odano neu gopi o awdurdod o'r fath wedi'i ardystio gan notari neu mewn modd arall a gymeradwywyd gan y cyfarwyddwyr -

(a) yn achos offeryn yn ysgrifenedig, ei adneuo yn y swyddfa gofrestredig neu yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig a bennir yn yr hysbysiad sy'n cynnull y cyfarfod neu yn unrhyw offeryn dirprwyo a anfonwyd gan y Cwmni mewn perthynas â'r cyfarfod dim llai na 48 awr cyn cynnal y cyfarfod neu'r cyfarfod a ohiriwyd y mae'r person a enwir yn yr offeryn yn bwriadu pleidleisio ynddo; neu

(b) yn achos penodiad a nodir mewn cyfathrebiad electronig, os pennwyd cyfeiriad at ddibenion derbyn cyfathrebu electronig -

(i) yn yr hysbysiad sy'n cynnull y cyfarfod, neu

(ii) mewn unrhyw offeryn dirprwyo a anfonwyd gan y Cwmni mewn perthynas â'r cyfarfod, neu

(iii) mewn unrhyw wahoddiad sydd mewn cyfathrebiad electronig i benodi dirprwy a ddyroddwyd gan y Cwmni mewn perthynas â'r cyfarfod,

gyrraedd y cyfeiriad hwnnw ddim llai na 48 awr cyn cynnal y cyfarfod neu'r cyfarfod a ohiriwyd y mae'r person a enwir yn y penodiad yn bwriadu pleidleisio ynddo;

(c) yn achos pôl a gymerir fwy na 48 awr ar ôl ei hawlio, ei adneuo neu ei derbyn fel y crybwyllir ym mharagraff (a) neu (b) ar ôl hawlio'r pôl a dim llai na 24 awr cyn yr amser a benodwyd i gymryd y pôl; neu

(ch) os na chymerir y pôl ar unwaith ond ei bod yn cael ei chymryd dim mwy na 48 awr ar ôl ei hawlio, caniateir ei draddodi yn y cyfarfod yr hawliwyd y pôl ynddi i'r cadeirydd neu'r ysgrifennydd neu i unrhyw gyfarwyddwr;

a bydd offeryn dirprwyo na chafodd ei adneuo, ei draddodi neu ei dderbyn mewn modd a ganiateir gan yr erthygl hon yn annilys.

**48**. Bydd pleidlais a fwrir neu pôl a hawlir drwy ddirprwy neu gan gynrychiolydd awdurdodedig priodol corfforaeth yn ddilys er gwaethaf terfynu ymlaen llaw awdurdod y person sy'n pleidleisio neu'n hawlio pôl oni ddaeth hysbysiad o'r terfyniad i law'r Cwmni yn y swyddfa gofrestredig neu yn rhywle arall yr adneuwyd yr offeryn dirprwyo yn briodol neu, os penodwyd dirprwy mewn cyfathrebiad electronig, yn y cyfeiriad lle derbyniwyd y penodiad yn briodol cyn dechrau'r cyfarfod neu'r cyfarfod a ohiriwyd pan gymerir y bleidlais neu yr hawlir pôl ynddo neu (yn achos pôl a gymerir heb fod ar yr un diwrnod â'r cyfarfod neu'r cyfarfod a ohiriwyd) yr amser a benodwyd ar gyfer cymryd y pôl.

### CYMHWYSTER Y CYFARWYDDWYR

**49**. Nid oes angen i gyfarwyddwr fod yn aelod o'r Cwmni.

### NIFER Y CYFARWYDDWYR

**50**. Oni phenderfynir fel arall drwy benderfyniad cyffredin, ni fydd nifer y cyfarwyddwyr (heblaw cyfarwyddwyr dirprwyol) yn ddarostyngedig i unrhyw fwyafswm ond ni fydd llai na dau ohonynt.

### PENODI A SYMUD CYFARWYDDWYR

**51**. Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf, rhaid i bob cyfarwyddwr ymddeol o'i swydd, ac ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol wedyn rhaid i draean y cyfarwyddwyr sydd i ymddeol drwy gylchdro neu, os nad yw eu nifer yn dri neu'n luosrif o dri, rhaid i'r nifer sydd agosaf at un traean ymddeol o'u swydd; ond os un cyfarwyddwr yn unig sydd i ymddeol drwy gylchdro, rhaid iddo ymddeol.

**52**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Cwmnïau, y cyfarwyddwyr sydd i ymddeol drwy gylchdro fydd y rhai a fu hiraf yn y swydd ers eu penodiad neu eu hailbenodiad diwethaf, ond o ran personau a ddaeth neu a ailbenodwyd ddiwethaf yn gyfarwyddwyr ar yr un diwrnod y rhai i ymddeol fydd (oni fyddant fel arall yn cytuno ymhlith ei gilydd) y rhai a benderfynir drwy fwrw coelbren.

**53**. Os na fydd y Cwmni, yn y cyfarfod pan fydd cyfarwyddwr yn ymddeol drwy gylchdro, yn llenwi'r swydd wag, bernir y bydd y cyfarwyddwr sy'n ymddeol, os yw'n barod i weithredu, wedi'i ailbenodi oni phenderfynir yn y cyfarfod na lenwir y swydd wag neu oni chaiff penderfyniad i ailbenodi'r cyfarwyddwr ei gyflwyno i'r cyfarfod a'i golli.

**54**. Ni chaiff person heblaw cyfarwyddwr sy'n ymddeol drwy gylchdro ei benodi neu'i ailbenodi yn gyfarwyddwr mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol oni bai -

(a) ei fod wedi'i argymell gan y cyfarwyddwyr; neu

(b) dim llai na phedwar diwrnod ar ddeg clir a dim mwy na phymtheg ar hugain o ddiwrnodau clir cyn y dyddiad a benodwyd ar gyfer y cyfarfod, bod hysbysiad o fwriad wedi'i gyflawni gan aelod sy'n gymwys i bleidleisio yn y cyfarfod wedi'i roi i'r Cwmni i gynnig y person hwnnw i'w benodi neu ei ailbenodi gan ddatgan y manylion y byddai angen eu cynnwys yng nghofrestr cyfarwyddwyr y Cwmni ynghyd â hysbysiad a gyflawnwyd gan y person hwnnw o'i barodrwydd i gael ei benodi neu ei ailbenodi pe byddai'n cael ei benodi neu ei ailbenodi.

**55**. Dim llai na saith a dim mwy na dau ddeg wyth diwrnod clir cyn y dyddiad a benodwyd i gynnal cyfarfod cyffredinol, rhaid hysbysu pawb sydd â hawl i dderbyn hysbysiad o'r cyfarfod am unrhyw berson a argymhellir gan y cyfarwyddwyr i'w benodi neu ei ailbenodi'n gyfarwyddwr yn y cyfarfod neu y rhoddwyd hysbysiad yn briodol i'r Cwmni mewn perthynas ag ef o'r bwriad i'w gynnig ef yn y cyfarfod i'w benodi neu ei ailbenodi'n gyfarwyddwr. Rhaid i'r hysbysiad roi manylion y person hwnnw y byddai angen eu cynnwys yng nghofrestr cyfarwyddwyr y Cwmni pe byddai'n cael ei benodi neu ei ailbenodi.

**56**. Yn ddarostyngedig i erthyglau 51 i 55, caiff y Cwmni drwy benderfyniad cyffredin benodi person sy'n barod i weithredu yn gyfarwyddwr naill ai i lenwi swydd wag, neu'n gyfarwyddwr ychwanegol a chaiff benderfynu ar y cylchdro y mae unrhyw gyfarwyddwr ychwanegol i ymddeol ynddo.

**57**. Caiff y cyfarwyddwyr benodi person sy'n barod i weithredu yn gyfarwyddwr naill ai i lenwi swydd wag, neu'n gyfarwyddwr ychwanegol, ar yr amod nad yw'r penodiad yn peri i nifer y cyfarwyddwyr fod yn fwy na unrhyw nifer a bennwyd gan yr erthyglau fel mwyafswm nifer y cyfarwyddwyr neu yn unol â hwy. Bydd cyfarwyddwr a benodir yn y dull hwnnw yn dal ei swydd tan y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf yn unig. Os na chaiff ei ailbenodi yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol hwnnw, bydd yn ymadael â'i swydd ar ddiwedd y cyfarfod.

**58**. Yn ddarostyngedig i'r erthyglau hyn, ceir ailbenodi cyfarwyddwr sy'n ymddeol mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol, os yw'n barod i weithredu. Os na chaiff ei ailbenodi, bydd yn dal ei swydd nes bod y cyfarfod yn penodi rhywun yn ei le, neu os na wneir hynny, tan ddiwedd y cyfarfod.

### CYFARWYDDWYR DIRPRWYOL

**59**. Caiff unrhyw gyfarwyddwr (heblaw cyfarwyddwyr dirprwyol) benodi unrhyw gyfarwyddwr arall, neu unrhyw berson arall a gymeradwywyd drwy benderfyniad y cyfarwyddwyr ac sy'n barod i weithredu, yn gyfarwyddwyr dirprwyol a chaiff symud o'i swydd gyfarwyddwyr dirprwyol a benodwyd ganddo yn y modd hwnnw.

**60**. Bydd gan y cyfarwyddwyr dirprwyol yr hawl i dderbyn hysbysiad am bob cyfarfod cyfarwyddwyr a phob cyfarfod pwyllgor y cyfarwyddwyr y mae ei benodwr yn aelod ohono, i fod yn bresennol ac i bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o'r fath lle nad yw'r cyfarwyddwr a'i penododd yn bresennol yn bersonol ac yn gyffredinol yr hawl i gyflawni holl swyddogaethau ei benodwr fel cyfarwyddwr yn ei absenoldeb ond ni fydd ganddo'r hawl i gael unrhyw dâl gan y Cwmni am ei wasanaeth fel cyfarwyddwyr dirprwyol. Ni fydd angen rhoi hysbysiad o gyfarfod o'r fath i gyfarwyddwyr dirprwyol sy'n absennol o'r Deyrnas Unedig onid yw wedi rhoi cyfeiriad i'r Cwmni y gellir anfon hysbysiadau iddo drwy ddefnyddio cyfathrebu electronig.

**61**. Bydd cyfarwyddwr dirprwyol yn peidio â bod yn gyfarwyddwr dirprwyol os bydd ei benodwr yn peidio â bod yn gyfarwyddwr. Os bydd cyfarwyddwr yn ymddeol ond yn cael ei ailbenodi neu os bernir ei fod yn cael ei ailbenodi yn y cyfarfod pan fydd yn ymddeol, bydd unrhyw benodiad o gyfarwyddwyr dirprwyol a wnaed ganddo a oedd mewn grym yn union cyn iddo ymddeol yn parhau ar ôl ei ailbenodiad.

**62**. Rhaid i unrhyw benodiad neu symud cyfarwyddwr dirprwyol fod drwy hysbysiad i'r Cwmni wedi'i lofnodi gan y cyfarwyddwr sy'n gwneud neu'n dirymu'r penodiad neu mewn unrhyw fodd arall a gymeradwyir gan y cyfarwyddwyr.

**63**. Oni ddarperir fel arall yn yr erthyglau hyn, bernir bod cyfarwyddwr dirprwyol i bob diben yn gyfarwyddwr ac ef yn unig fydd yn gyfrifol am ei weithredoedd a'i fethiannau ac ni fernir ei fod yn asiant i'r cyfarwyddwr a'i penododd.

### DATGYMHWYSO A SYMUD CYFARWYDDWYR

**64**. Rhaid i gyfarwyddwr ymadael â'i swydd -

(a) os yw'n peidio â bod yn gyfarwyddwr yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf Cwmnïau neu os gwaherddir ef gan y gyfraith rhag bod yn gyfarwyddwr; neu

(b) os yw'n mynd yn fethdalwr a bydd yn parhau i fod yn anghymwys rhag gweithredu fel cyfarwyddwr tra bydd yn fethdalwr nas rhyddhawyd o'i fethdaliad, neu'n gwneud unrhyw drefniant neu gompownd gyda'i gredydwyr yn gyffredinol; neu

(c) os yw, neu os gall ei fod, yn dioddef o salwch meddwl a naill ai -

(i) caiff ei dderbyn i'r ysbyty yn unol â chais am dderbyn ar gyfer triniaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu, yn yr Alban, cais am dderbyn o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (yr Alban) 1960, neu

(ii) gwneir gorchymyn gan lys ag awdurdodaeth (boed yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall) mewn materion sy'n ymwneud â salwch meddwl ar gyfer cadw'r cyfarwyddwr neu ar gyfer penodi derbynnydd, curator bonis neu berson arall i arfer pwerau ynghylch ei eiddo neu ei fusnes; neu

(ch) os bu'n aelod o'r Cwmni, mae'n peidio â bod yn aelod o'r Cwmni; neu

(d) os yw'n ymddiswyddo o swydd cyfarwyddwr drwy hysbysu'r Cwmni; neu

(dd) os bydd yn absennol am fwy na chwe mis yn olynol heb ganiatâd y cyfarwyddwyr o gyfarfodydd y cyfarwyddwyr a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwnnw a bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu y dylid ymadael â swydd y cyfarwyddwr.

### PWERAU'R CYFARWYDDWYR

**65**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Cwmnïau, y memorandwm a'r erthyglau hyn ac i unrhyw gyfarwyddiadau a roddir drwy benderfyniad arbennig, rhaid i fusnes y Cwmni gael ei reoli gan y cyfarwyddwyr a gaiff arfer holl bwerau'r Cwmni. Ni fydd addasiad o'r memorandwm neu'r erthyglau na chyfarwyddyd o'r fath yn annilysu unrhyw weithred flaenorol gan y cyfarwyddwyr a fyddai wedi bod yn ddilys pe na bai'r addasiad hwnnw wedi'i wneud neu pe na bai'r cyfarwyddyd wedi'i roi. Ni chaiff y pwerau a roddir gan yr erthygl hon eu cyfyngu gan unrhyw bwer arbennig a roddir i'r cyfarwyddwyr gan yr erthyglau hyn a chaiff cyfarfod o'r cyfarwyddwyr pan fydd cworwm yn bresennol arfer yr holl bwerau sy'n arferadwy gan y cyfarwyddwyr.

**66**. Caiff y cyfarwyddwyr, drwy bŵer atwrnai neu fel arall, benodi unrhyw berson yn asiant i'r Cwmni at y dibenion hynny ac o dan yr amodau hynny y cânt benderfynu arnynt, gan gynnwys awdurdod i'r asiant ddirprwyo ei holl bwerau neu unrhyw rai ohonynt.

**DIRPRWYO PWERAU'R CYFARWYDDWYR**

**67**. Caiff y cyfarwyddwyr ddirprwyo unrhyw rai o'u pwerau i unrhyw bwyllgor sy'n cynnwys un cyfarwyddwr neu fwy, aelodau o'r Cwmni ac eraill fel y gwelant orau. Rhaid i fwyafrif aelodau unrhyw bwyllgor o'r fath o dro i dro fod yn aelodau o'r Cwmni. Caiff y cyfarwyddwyr hefyd ddirprwyo i unrhyw gyfarwyddwr rheoli, neu i unrhyw gyfarwyddwr sy'n dal unrhyw swydd weithredol arall, y pwerau hynny y maent yn ystyried eu bod yn ddymunol i'w harfer ganddo. Ceir gwneud unrhyw ddirprwyo o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y caiff y cyfarwyddwyr eu gosod, a naill ai'n gyfochrog â'u pwerau eu hunain neu drwy eu heithrio a cheir eu dirymu neu eu newid. Yn ddarostyngedig i unrhyw amodau o'r fath, llywodraethir trafodion pwyllgor o ddau aelod neu fwy gan yr erthyglau sy'n rheoli trafodion cyfarwyddwyr i'r graddau y gallant fod yn gymwys.

**TÂL CYFARWYDDWYR**

**68**. Oni cheir cydsyniad y Cwmni mewn cyfarfod cyffredinol, ni fydd gan y cyfarwyddwyr yr hawl i unrhyw dâl. Rhaid i unrhyw benderfyniad sy'n rhoi cydsyniad o'r fath bennu swm y tâl i'w dalu i'r cyfarwyddwyr, ac oni fydd y penderfyniad yn darparu fel arall, bernir y bydd y tâl yn cronni o ddydd i ddydd.

**TREULIAU'R CYFARWYDDWYR**

**69**. Ceir talu i'r cyfarwyddwyr yr holl dreuliau a dynnir ganddynt yn briodol mewn cysylltiad â'u presenoldeb yng nghyfarfodydd y cyfarwyddwyr neu bwyllgor cyfarwyddwyr neu gyfarfodydd cyffredinol y Cwmni neu fel arall mewn cysylltiad â chyflawni eu dyletswyddau.

**PENODIADAU A BUDDIANNAU'R CYFARWYDDWYR**

**70**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Cwmnïau, ac ar yr amod bod telerau unrhyw benodiad, cytundeb neu drefniant o'r fath wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw gan y Cwmni, caiff y cyfarwyddwyr benodi un neu fwy o'u plith i swydd cyfarwyddwr rheoli neu i unrhyw swydd weithredol arall o dan y Cwmni a chaiff ymrwymo mewn cytundeb neu drefniant gydag unrhyw gyfarwyddwr er mwyn ei gyflogi gan y Cwmni neu er mwyn iddo ddarparu unrhyw wasanaethau y tu allan i ystod dyletswyddau cyffredinol cyfarwyddwr. Rhaid i unrhyw benodiad cyfarwyddwr i swydd weithredol ddod i ben os bydd yn peidio â bod yn gyfarwyddwr ond heb ragfarnu unrhyw hawliad am iawndal am dorri contract gwasanaeth rhwng y cyfarwyddwr a'r Cwmni.

**71**. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf Cwmnïau, ac ar yr amod ei fod wedi datgelu i'r cyfarwyddwyr natur a chwmpas unrhyw fuddiant perthnasol ganddo, er gwaethaf ei swydd -

(a) caiff cyfarwyddwr fod yn barti, neu fod â buddiant fel arall, i unrhyw drafodiad neu drefniant gan y Cwmni neu drafodiad neu drefniant y mae buddiant arall gan y Cwmni ynddynt; a

(b) caiff cyfarwyddwr fod yn gyfarwyddwr neu swyddog arall, neu gael ei gyflogi gan, neu fod yn barti i, neu fod â buddiant fel arall yn, unrhyw drafodiad neu drefniant ag unrhyw gorff corfforaethol a hybir gan y Cwmni neu y mae gan y Cwmni fel arall fuddiant ynddo; ac

(c) ni fydd cyfarwyddwr, oblegid ei swydd, yn atebol i'r Cwmni am unrhyw fudd a ddeilliodd iddo o unrhyw swydd neu gyflogaeth o'r fath neu o unrhyw drafodiad neu drefniant o'r fath neu o unrhyw fuddiant mewn unrhyw gorff corfforaethol o'r fath ac ni fydd trafodiad neu drefniant o'r fath yn agored i'w osgoi ar sail unrhyw fuddiant neu fudd o'r fath.

**72**. At ddibenion erthygl 71-

(a) bernir y bydd hysbysiad cyffredinol a roddir i'r cyfarwyddwyr bod cyfarwyddwr i'w ystyried fel un â buddiant o'r natur a'r cwmpas a bennir yn yr hysbysiad mewn unrhyw drafodiad neu drefniant y mae buddiant gan berson penodedig neu ddosbarth o bersonau yn ddatgeliad bod gan y cyfarwyddwr fuddiant mewn unrhyw drafodiad neu drefniant o'r fath o'r natur a'r cwmpas a bennir felly; a

(b) nid ymdrinnir â buddiant gan gyfarwyddwr nad oes ganddo wybodaeth ohono ac y mae'n afresymol disgwyl iddo wybod amdano fel buddiant ganddo.

**ARIAN RHODD A PHENSIYNAU CYFARWYDDWYR**

**73**. Caiff y cyfarwyddwyr ddarparu buddion, boed drwy dalu arian rhodd neu bensiynau neu drwy yswiriant neu fel arall, i unrhyw gyfarwyddwr sydd wedi dal ond nad yw bellach yn dal unrhyw swydd weithredol neu gyflogaeth